

Cwestiynau Cyffredin am Coronafeirws (COVID-19) ar gyfer Aelodau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Rwy'n bryderus am fy sefyllfa ariannol oherwydd COVID-19 – beth alla i ei wneud?

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol wedi cyhoeddi canllawiau ar sut i ddelio â'r effeithiau ariannol y gallech fod yn eu dioddef oherwydd pandemig coronafeirws. Mae'n cwmpasu pob agwedd ar eich cyllid gan gynnwys problemau gyda thalu morgais a thaliadau rhent, dyled a hawlio budd-daliadau.

<https://www.moneyadvice.service.org.uk/cy/articles/coronafeirws-ach-arian>

A alla i stopio fy nghyfraniadau pensiwn?

Gallwch, ond efallai yr hoffech ystyried ymuno ag adran 50/50 y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn lle optio allan. Os byddwch chi'n gwneud hynny, byddwch chi'n talu hanner eich cyfradd cyfrannu arferol ac yn cronni hanner eich pensiwn arferol. Byddwch yn cadw yswiriant bywyd a salwch llawn a gallwch symud yn ôl i'r brif adran pryd bynnag y byddwch yn barod. Er, mae'r adran 50/50 wedi'i chynllunio i chi fod yn y rhan honno o'r cynllun am uchafswm o 3 blynedd.

Gallwch ddefnyddio'r gyfrifiannell cyfraniadau i wirio pa wahaniaeth y byddai hyn yn ei wneud i'ch tâl:

<https://lgpsmember.org/more/contscalculator.php>

Os penderfynwch ar ôl ystyried yr adran 50/50 yr hoffech optio allan, gallwch gael ffurflen optio allan o wefan Cronfa Bensiwn Clwyd: <https://mss.clwydpensionfund.org.uk/home/active-members/publications-news-forms/index.html>. Dylid cwblhau a dychwelyd y ffurflen hon i'ch **cyflogwr**.

Dylech chi gael cyngor ariannol annibynnol cyn penderfynu optio allan.

Mae'r pandemig coronafeirws yn effeithio ar farchnadoedd stoc, a fydd hyn yn effeithio ar werth fy Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol?

Na fydd, mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio, sy'n golygu bod eich pensiwn yn seiliedig ar eich cyflog a pha mor hir rydych chi wedi talu i mewn iddo. Nid yw eich pensiwn yn gysylltiedig â pherfformiad y farchnad stoc, felly ni fydd unrhyw effaith ar eich cyfraniadau na'ch pensiwn, p'un ai tâl ai peidio.

A fydd COVID-19 yn effeithio ar werth fy nghyfraniadau gwirfoddol ychwanegol gyda Prudential?

Os oes gennych gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol, mae'n bosibl y bydd y gwerth wedi gostwng - bydd hyn yn dibynnu ar y cronfeydd rydych chi wedi dewis buddsoddi ynddynt. Mae Cronfa Bensiwn Clwyd mewn cysylltiad â Prudential ac maent wedi dweud eu bod wedi bod yn trefnu i'w staff weithio gartref fel y gallwch barhau i siarad â nhw fel o'r blaen. Fodd bynnag, mae Prudential wedi gofyn i aelodau edrych ar wybodaeth eu cronfa cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol ar-lein yn gyntaf ac yna ffonio os oes ganddynt unrhyw gwestiynau pellach. Gallwch weld eich cyfrif cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol ar-lein yn www.pruetire.co.uk

Mae Prudential hefyd wedi llunio rhywfaint o Gwestiynau Cyffredin am gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol a COVID-19. Gellir gweld eu datganiad swyddogol yn: <https://www.pru.co.uk/investing-in-uncertain-times/>

Rwy'n derbyn pensiwn gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a fydd fy mhensiwn yn dal i gael ei dalu i mi?

Bydd, bydd Cronfa Bensiwn Clwyd yn blaenoriaethu talu pensiynau yn ystod yr amseroedd ansicr hyn.

Os gostyngir fy nghyflog, pa effaith a gaiff hyn ar fy mhensiwn?

Bydd hyn yn dibynnu ar y rheswm dros leihau'r cyflog:

- **Absenoldeb salwch**

Os caiff eich cyflog ei ostwng neu os nad ydych chi'n cael unrhyw dâl oherwydd eich bod i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch neu anaf, bydd eich pensiwn yn cronni fel petaech yn y gwaith ac yn cael tâl arferol.

Byddwch yn parhau i dalu cyfraniadau ar unrhyw dâl a gewch yn ystod eich absenoldeb salwch.

- **Absenoldeb Di-dâl Awdurdodedig**

Os yw eich cyflogwr yn caniatáu neu'n gofyn i chi gymryd cyfnod o absenoldeb di-dâl, ni fyddwch yn cronni unrhyw bensiwn am y cyfnod oni bai eich bod yn dewis talu Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol i brynu swm y pensiwn a gollwyd.

Os byddwch yn dewis talu Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol i brynu swm y pensiwn a gollwyd a'ch bod yn dewis gwneud hyn cyn pen 30 diwrnod ar ôl dychwelyd i'r gwaith, bydd y gost yn cael ei rhannu rhyngoch chi a'ch cyflogwr.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth, defnyddio cyfrifiannell ar-lein a lawrlwytho ffurflen gais o wefan aelod Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol: <https://www.lgpsmember.org/more/apc/index.php>

- Cynllun cadw swyddi oherwydd absenoldeb o ganlyniad y Coronafeirws

Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau nad ydyn nhw'n disgwyl i sefydliadau'r sector cyhoeddus, fel cynghorau, ddefnyddio'r cynllun cadw swyddi coronafeirws, ac eithrio mewn rhai achosion cyfyngedig iawn. Dylai cyflogwyr y sector cyhoeddus barhau i dalu staff yn y ffordd arferol hyd yn oed os nad ydyn nhw yn y gwaith.

Os yw eich cyflogwr yn gallu defnyddio'r cynllun cadw swyddi a'ch bod chi'ch dau'n cytuno, efallai y bydd eich cyflogwr yn gallu parhau i'ch cyflogi os nad ydyn nhw'n gallu gweithredu neu os nad oes ganddyn nhw waith i chi ei wneud oherwydd coronafeirws (COVID-19) . Gelwir hyn yn 'mynd ar ryddhad'.

Os yw hyn yn berthnasol i chi, gallai eich cyflogwr dalu 80% o'ch cyflog hyd at gap misol o £2,500. Bydd y Llywodraeth yn ariannu'ch cyflogwr i wneud hyn. Gall cyflogwyr ddewis ychwanegu at eich cyflog i gyrraedd 100%, ond os ydych chi'n derbyn llai o dâl pan fyddwch chi'n 'mynd ar ryddhad', bydd swm y pensiwn rydych chi'n ei gronni yn ystod y cyfnod hwn hefyd yn cael ei leihau. Byddwch yn parhau i dalu cyfraniadau pensiwn ar y cyflog y byddwch yn ei gael.

Gallwch dalu Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol i brynu **pensiwn ychwanegol** i wneud iawn am y pensiwn a gollwyd yn ystod y cyfnod hwn. Does dim rhaid i'ch cyflogwr dalu tuag at y gost, ond gallan nhw ddewis gwneud hynny.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am dalu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol, defnyddio cyfrifiannell ar-lein a lawrlwytho ffurflen gais o wefan aelod Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol: <https://www.lgpsmember.org/more/apc/index.php>

Mae buddion pensiwn cyflog terfynol a gronnwyd cyn 1 Ebrill 2014 fel arfer yn cael eu cyfrif gan ddefnyddio'r cyflog pensiynadwy a enillwyd yn y 365 diwrnod cyn gadael y cynllun. Fodd bynnag, gellir defnyddio cyflog un o'r ddwy flynedd flaenorol os yw'n uwch. Gall hyn atal buddion cyflog terfynol rhag cael eu heffeithio'n niweidiol os yw cyflog yr aelod yn cael ei ostwng oherwydd ei fod yn mynd ar ryddhad.

Mae gwefan GOV.UK yn rhoi mwy o wybodaeth am y cynllun cadw swydd ar gyfer gweithwyr. <https://www.gov.uk/guidance/check-if-you-could-be-covered-by-the-coronavirus-job-retention-scheme>

- Absenoldeb i Wirfoddoli ar Frys

Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno cynllun gwirfoddoli newydd i ganiatáu i'r cyhoedd gyfrannu at ymateb y coronafeirws. Mae'r cynllun yn caniatáu i weithwyr gymryd absenoldeb statudol di-dâl i wirfoddoli ar frys mewn awdurdodau iechyd a gofal cymdeithasol.

Os cymerwch gyfnod o absenoldeb i wirfoddoli ar frys, bydd buddion eich Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cronni yn yr un ffordd â phetaech yn gweithio fel arfer.

Dim ond ar unrhyw gyflog gwirioneddol y bydd eich cyflogwr yn ei dalu i chi yn ystod y cyfnod y byddwch yn talu cyfraniadau.

Os bydd unrhyw aelodau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael secondiad fel staff brys i'r GIG, bydd eu buddion pensiwn yn parhau ar yr un sail â chyn y secondiad.

- Rhesymau eraill

I gael gwybodaeth am yr effaith ar eich pensiwn os ydych i ffwrdd o'r gwaith am unrhyw reswm arall, fel absenoldeb sy'n gysylltiedig â phlant neu fel milwr wrth gefn, gweler gwefan aelodau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol: <https://www.lgpsmember.org/arm/already-member-absence.php>

Sut y bydd mynd ar ryddhad yn effeithio ar fuddion marw yn y swydd aelod?

Defnyddir cyflog pensiynadwy tybiedig wrth gyfrifo'r grant marwolaeth ac unrhyw fuddion goroeswr os bydd aelod yn marw yn y swydd. Fel rheol, cyfrifir cyflog pensiynadwy tybiedig gan ddefnyddio'r cyflog pensiynadwy cyfartalog y mae'r aelod yn ei gael yn y tri mis cyn y cyfnod tâl y mae'n marw ynddo.

Os bydd aelod sy'n derbyn llai o dâl gan ei fod wedi mynd ar ryddhad ac yn marw mewn gwasanaeth, dylai cyflogwyr ddefnyddio'r ddarpariaeth yn y rheoliadau sy'n caniatáu iddynt amnewid ffigur cyflog uwch i adlewyrchu'r tâl pensiynadwy y byddai'r aelod wedi'i gael.

Wrth bennu cyfradd cyfraniadau gweithwyr ar 1 Ebrill 2020, a ddylid defnyddio tâl ar ryddhad?

Dylid, os yw cyflog ar ryddhad yn ffurfio cyfanswm neu ran o gyflog pensiynadwy aelod, dylid ei ddefnyddio i bennu cyfradd cyfraniadau'r gweithiwr ar 1 Ebrill 2020.

Pan fydd newid i gyflogaeth, neu newid sylweddol, yn ystod y flwyddyn, mae rheoliadau yng Nghymru a Lloegr yn caniatáu i'r cyflogwr wneud penderfyniad pellach ac ailddyrannu aelod i fand gwahanol. Rhaid i'r cyflogwr roi gwybod i'r aelod os bydd yn ailddyrannu aelod i fand gwahanol.

Mae aelod gohiriedig neu bensiwnwr yn rhan o'r staff brys; sut mae hyn yn effeithio ar eu buddion pensiwn?

Bydd aelodau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gohiriedig a phensiwnwr sy'n dychwelyd i weithio mewn llywodraeth leol neu sy'n cael cynnig contractau cyflogaeth gyda'r GIG (fel rhan o staff brys) yn cael mynediad at ddarpariaeth pensiwn yn y cynllun pensiwn priodol. Os rhoddir cytundeb gwirfoddol i'r GIG iddynt, nid yw'n gontract cyflogaeth ac felly, ni fydd ganddynt fynediad at gynllun pensiwn y GIG.

A fydd Cronfa Bensiwn Clwyd yn lleihau pensiwn aelod os yw'n dychwelyd i'r gwaith?

Polisi'r Llywodraeth yw na ddylid cosbi pensiwnwyr sy'n dychwelyd i rolau fel gweithwyr allweddol yn ariannol am helpu i fynd i'r afael â coronafeirws (COVID-19). Ar 19 Mawrth anfonodd Bwrdd Cyngori Cynllun Cymru a Lloegr lythyr at gadeiryddion pwyllgorau pensiwn i'r perwyl hwnnw.

Sut y bydd coronafeirws (COVID-19) yn effeithio ar y gwasanaeth y mae fy nghronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn ei ddarparu?

Mae Cronfa Bensiwn Clwyd yn addasu patrymau gwaith i sicrhau y gallwn barhau i ddarparu gwasanaeth wrth fonitro cyngor diweddaraf y Llywodraeth i ddiogelu ein staff.

Byddwn yn blaenoriaethu talu pensiynau a phrosesu buddion marwolaeth, felly gall gymryd mwy o amser nag arfer i ddelio â gwaith arall, megis trosglwyddiadau, ceisiadau amcangyfrif ac ymholiadau cyffredinol.

Os oes angen i chi gysylltu â ni yn ystod y cyfnod hwn, anfonwch e-bost atom gydag unrhyw ymholiadau, pensions@flintshire.gov.uk gan nodi eich enw a'ch rhif YG yn eich e-bost.

Cofiwch fod ein porth Hunanwasanaeth Aelodau ar gael i chi fewngofnodi a tharo golwg ar eich dogfennau pensiwn, cynnal amcangyfrifon o fanteision y cynllun, lleoli fforymau Cronfa Bensiynau Clwyd a newid eich manylion personol. Os nad ydych chi wedi cofrestru ar y porth Hunanwasanaeth Aelodau eto, yna gallwch anfon eich enw, rhif yswiriant gwladol a'ch dyddiad geni ar e-bost i mss@flintshire.gov.uk i gael allwedd weithredu.

A allai sgamiau pensiynau gynyddu yn ystod cyfnod Coronafeirws (COVID-19)?

Gallai, cadwch lygad am sgamiau sy'n gysylltiedig â coronafeirws (COVID-19). Mae'r sgamiau hyn ar sawl ffurf a gallent fod yn ymwneud â pholisiâu yswiriant, trosglwyddiadau pensiynau, neu gyfleoedd buddsoddi enillion uchel, gan gynnwys buddsoddiadau mewn asedau crypto.

Mae sgamwyr yn soffistigedig a manteisgar a byddant yn rhoi cynnig ar lawer o bethau. Maen nhw hefyd yn debygo iawn o dargedu'r rhai diamddiffyn. Gwylwch rhag buddsoddiadau sy'n ymddangos yn rhy dda i fod yn wir.

I helpu i ddiogelu eich hun, dylech chi:

- wrthod cynigion sy'n dod yn annisgwyl
- byddwch yn wylidwrs o hysbysebion ar sianeli cyfryngau cymdeithasol a hysbysebion y telir amdanynt/noddir ar-lein
- defnyddiwch **Gofrestr Awdurdod Ymddygiad Ariannol** https://register.fca.org.uk/ShPo_HomePage) a'r **Rhestr Rybudd** (<https://www.fca.org.uk/scamsmart/about-fca-warning-list>) i wirio pwy rydych chi'n ymwneud â nhw.
- peidiwch â chlicio ar ddolenni nac agor negeseuon e-bost gan anfonwyr nad ydych chi eisoes yn eu hadnabod
- osgowch gael eich rhuthro neu eich rhoi dan bwysau i wneud penderfyniad
- os bydd cwmni'n eich ffonio chi'n annisgwyl, defnyddiwch y manylion cyswllt ar y **Gofrestr Awdurdod Ymddygiad Ariannol** i wirio eich bod chi'n delio â'r cwmni dilys
- peidiwch â rhoi eich manylion personol (manyion banc, cyfeiriad, manylion yswiriant/pensiynau/buddsoddiad presennol).

Os ydych chi'n amau sgam, ffoniwch **Action Fraud** ar unwaith ar 0300 123 2040. Eu gwefan yw: http://www.actionfraud.org.uk/report_fraud/